Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

National Assembly for Wales
Public Accounts Committee

Dr Andrew Goodall
Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

30 Ionawr 2018

Annwyl Dr Goodall,

Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Rhagfyr 2017 a gafodd ei ystyried yn y Pwyllgor ar 15 Ionawr.

Yn sgil ein hystyriaethau a gan adeiladu ar eich tystiolaeth lafar flaenorol, hoffem gael rhagor o fanylion ynghylch pam y cynhaliwyd yr adolygiad sero o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn unig. Byddem hefyd yn croesawu cadarnhad a oes unrhyw fwriad cynnal adolygiad tebyg ar draws byrddau iechyd eraill. Fodd bynnag, nodwn y bydd y canfyddiadau yn yr adolygiad Hywel Dda yn llywio gwaith arall ar y fformiwla dyrannu adnoddau. Rydym yn awyddus i weld cynnydd ar hyn, o gofio bod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adolygu'r fformiwla yn mynd yn ôl i argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn 2013.

Rydych wedi cyfeirio mewn tystiolaeth flaenorol at yr adolygiadau llywodraethu ariannol a gomisiynodd Llywodraeth Cymru gan Deloitte LLP o'r sefydliadau hynny sy'n cynyddu. Hoffem gael trosolwg o'r themâu / materion allweddol sy'n dod i'r amlwg o bob un o'r adolygiadau hynny hyd yn hyn a dealltwriaeth o'r modd y rhannwyd y canfyddiadau a'r gwersi a ddysgwyd yn ehangach.

Hefyd, gofynnodd yr Aelodau am arolwg ehangach o weithgarwch arbedion effeithlonrwydd y GIG. Er y byddai unrhyw ddatblygiadau neu gynlluniau eraill sy'n berthnasol ar draws y gwasanaeth o ddiddordeb, byddwn yn gofyn yn benodol am ddiweddariad ar gwmpas a chynnydd y Grŵp Effeithlonrwydd, Gwerth Gofal Iechyd

a Gwella, a ddisgrifiwyd yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014*, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017. Rwy'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio at waith y Grŵp hwn yn ei hymateb i adroddiad ac argymhellion diweddar y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2018-19. Ymysg pethau eraill sydd ganddo i'w ddweud am effeithlonrwydd, nodaf hefyd fod yr adroddiad Adolygiad Seneddol diweddar yn annog bod angen cydgysylltu gwaith y Grŵp hwn a Fframwaith Cyflenwi GIG Cymru yn llawn ag ymdrechion cenedlaethol eraill fel rhan o raglen drawsnewid gyffredinol.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,

Nick Ramsay AC
Cadeirydd